# CAN DDIFRIFO[L]

ER COFFADWRIAETH AM Y

# LLOFRUDDIAETH FARBARAID[D]

A

Gyflawnwyd ar gorph Mary, gwraig Morris Morris, gan Robert Webster, yn yr Efailfach, tua thair milltir o Gastellnedd, nos Sadwrn, Hydref 3, 1868. Tarawodd hi ar ei gwyneb nes iddi syrthio, efe a'i gorphenodd a'i ddwylaw; ac wedi hyny, rhoddodd y cryman yn y berth, a'i shawl hefyd, ac aeth at dŷ W. Jenkins, yr hwn sydd yn Gwnstab, a rhoddodd ei hun i fynu o herwydd ei fod wedi lladd Mary Morris, yr hon a orweddai ar yr heol. Ar ol myned yno, cafwyd ei eiriau yn wir, ei fod wedi cyflawni y weithred; awd âg ef, yn ol ei gais, i dŷ yr Heddgeidwad, yr hwn a aeth âg ef i Gastellnedd. Dydd Llun y 5ed, cynhaliwyd trengholiad ar gorph y drengedig, a chafwyd rheithfarn o "lofruddiaeth wirfoddol" yn erbyn Robert Webster; dywedodd yntau fod yr oll o'r tystiolaethau yn wir. Oddiyno anfonwyd ef i garchar y Sir i aros ei brawf.

---

Chwi Gymry, de'wch i wran[d]...

Y gwnaeth ef ei dybenu,
Tro rhyfedd ddaeth i'w rhan.

'N ol gwneuthur arni 'r weithred,
Mor galed aeth efe,
I dŷ dyn oedd yn gwnstab,
Gael dwe'yd y weithred gref,
A wnaeth ar gorff y ddynes,
Fy hanes draethaf fi,
Y modd y gwnes i'r weithred
Mor erchyll, gwelwch chwi.

'N ol iddo wrtho adrodd,
O'i wirfodd am y gwaith,
Gyflawnodd mor annynol,
Trwy ddiafol ar ei daith;
Ac yna 'r swyddog gododd
Yn rhyw fodd ar ei draed,
A [illegible] f y cerddodd.

Fe 'i dygodd at y swyddog—
  Mor llidiog oedd ei lef;
I Gastellnedd fe 'i cyrchwyd,
  Er arswyd mawr ar frys,
Er mwyn ei gywir farnu
  Gan ddeuddeg Jury 'r llys.

Cynhaliwyd y trengholiad
  Mewn ymarweddiad rhydd,
Cyn rhoddi 'r corph i orphwys,
  Yn esmwyth wely 'r pridd;
A chafwyd rheithfarn gymwys,
  Yn arllwys arno 'r gwir,
Mai 'i lladd hi yn wirfoddol,
  A wnaeth trwy Satan sur.

A'r Crwnar wedi gwrando,
  Wnaeth bwyso 'r mater trist,
A'r ddeg[illegible] y Jury yn [illegible]
  A phawb oedd yno 'n dyst;
A'r llofrudd waeddodd allan,
  Ei hunan yno 'n glir,
Mae 'r tystiolaethau 'n gywir,
  Ac eglur iawn yn wir.

Trengholydd ddywed eilwaith,
  Er alaeth i bob bron,
Wrth Robert yno 'n helaeth,
  Am y lofruddiaeth hon;
Mae 'r Rheithwyr wedi 'ch gweled
  Yn euog galed gur,
Am y lofruddiaeth waedlyd,
  Anhyfryd iawn yn wir.

Gan hyny rhaid eich danfon,
  I mewn i'r cyffion mawr,
I aros dydd y frawdlys,
  Boed hysbys i chwi 'n awr;
Am wneud y fath erchyllwaith,
  Mae helaeth eglurhad,

Mai chwi a laddodd Mary,
Am hyny cewch sarhad.

Oddiyno i'r carchar cyrchwyd.
Fe 'i rhoddwyd dan y clo,
I aros dydd i'w brofi
Mewn trwm galedi dro ;
Bydd gwaed y lofruddiedig
Am y fath ddirmyg ga'dd,
Yn tystio yno 'n bendant,
Mae Robert wnaeth ei ladd.

'N awr, holl drigolion Cymru,
Trown at yr Iesu oll,
Am iddo ef ein denu
I'w garu yn ddigoll ;
Gael bod yn berlau purlon
Byth yn ei goron ef,
Ac felly byddwn addas
I fyn'd i deyrnas nef.

Wel, bellach, cym'rwn rybudd,
Tra ym yn y byd,
Oddiwrth yr hwn mor galed
A wnaeth y weithred ddrud ;
A llefwn ar yr Arglwydd,
Yn ebrwydd ar y llawr,
Am ras y nef i'n cadw,
Yn loew yma 'n awr.

Tra 'n berchen bywyd, gwyliwn,
Gweddiwn hyd ein bedd,
I geisio am ddiangfa
O fewn i wynfa 'r hedd ;
Cymerwn ninau rybudd,
Tra 'n aros dan y nen,
Gochelwn ffyrdd y diafol,
Yn unol oll. Amen.

IEUAN O EIFION.

& J. GRIFFITHS, ARGRAFFWYR, ABERTAWY.

X2052404965